Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Diweddariad ar Reoleiddio Ebrill 2019

**Rydym yn dal i ddod ar draws nifer o bobl sy'n dweud wrthym nad ydynt wedi gweld y diweddariadau hyn ac sy'n teimlo eu bod yn colli allan ar wybodaeth bwysig.**

**Mae angen eich help arnom i sicrhau bod pob aelod perthnasol o staff a phob rhanddeiliad perthnasol yn cael y diweddariadau hyn. Felly, byddwch cystal â rhannu'r diweddariad hwn â'ch rhwydweithiau.**

## Newidiadau i'r Tîm Rheoleiddio

### Hwyl fawr Carol

Ar ddechrau mis Mai, bydd Carol Kay yn gadael y Tîm Rheoleiddio ar ôl bron 10 mlynedd. Bydd hyn yn golled fawr i'r Tîm, a bydd yn ddrwg iawn gennym ffarwelio â Carol.

### Strwythur y Tîm Rheoleiddio

Wrth i ni ffarwelio â Carol, rydym hefyd yn ystyried sut y gallwn wella strwythur ein tîm er mwyn helpu i ddatblygu ein dull cyflawni yn y ffordd orau posibl, er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y Pethau Iawn.

Cynigiwn y dylid cynnal y rhaniad o ran cyflawni/strategaeth yn y tîm gan y gwyddom fod hyn wedi bod yn elfen allweddol o lwyddiant y gwaith o ddatblygu rheoliadau tai dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn rhywbeth y mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn awyddus iddo barhau.

Rydym yn awyddus i gyfuno'r dull drwy gael un tîm yn gyfrifol am faterion rheoleiddio ac ail dîm yn gyfrifol am strategaeth a pholisi.

Bydd y Tîm Busnes Rheoleiddio yn ymdrin â chyhoeddi dyfarniadau rheoleiddiol, yr holl waith safonol yn ymwneud â rheoleiddio, cefnogi'r Bwrdd Rheoleiddio a'r Grŵp Cynghori ar Reoleiddio, a phrosesu Busnes y Llywodraeth.

Yn ogystal ag ymdrin â chydberthnasau allweddol a'r gwaith strategol o ddatblygu rheoliadau a'r fframwaith rheoleiddio, bydd y Tîm Strategaeth a Pholisi Rheoleiddio yn cymryd cyfrifoldeb penodol am wella ein dulliau rheoleiddio a llywodraethu, gyda'r nod o sicrhau ein bod yn canolbwyntio'n gadarn ar ddiwylliant ac arweinyddiaeth, ac am ymdrin ag achosion o bryder rheoleiddiol.

Rydym hefyd yn datblygu cynigion i gefnogi'r ffordd yr ydym yn ymdrin â gwaith llywodraethu. Rhagor o fanylion i ddilyn.

**Helo Huw**

Bydd y Tîm Busnes Rheoleiddio yn cael ei arwain gan Huw Maguire. Mae Huw yn ymuno â'r tîm ar ôl treulio'r ddwy flynedd ddiwethaf yn arwain ymateb Llywodraeth Cymru i drasiedi Grenfell.

Mae Huw yn was sifil ers 2000 ac mae wedi gweithio mewn nifer o uwch-rolau polisi a deddfwriaethol yn Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, sef ein tribiwnlys cwbl ddatganoledig cyntaf, Mesur Addysg (Cymru), arwain rhaglenni cymorth i deuluoedd Llywodraeth Cymru – Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf – a gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar ei strwythur sefydliadol.

Mae angen i ni gwblhau trafodaethau mewnol cyn cadarnhau strwythur newydd y Tîm, ond byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am rolau a chyfrifoldebau o dan y strwythur newydd cyn gynted â phosibl.

**Brexit**

Yn rhifyn Chwefror, tynnwyd sylw at y risgiau sy'n gysylltiedig â gadael yr UE. Ar adeg ysgrifennu'r rhifyn hwn, nid yw'r sefyllfa'n ddim cliriach, ac mae'r risgiau'n parhau.

Mae ein disgwyliadau fel rheoleiddiwr hefyd yn parhau, h.y. proses gadarn o nodi risgiau a modelu senarios. Os oes gan Fyrddau unrhyw bryderon uniongyrchol, dylech roi gwybod i'ch Rheolwr Rheoleiddio cyn gynted â phosibl.

**Tenantiaid wrth Wraidd Rheoleiddio – Adolygiad Thematig**

- Mae'r Grŵp Llywio ar gyfer adolygiad y Bwrdd Rheoleiddio o gyfranogiad tenantiaid a pha un a ydynt 'wrth wraidd rheoleiddio' yn parhau i weithio'n galed i ddatblygu'r Adolygiad.
- Rydym bellach wedi dechrau ar Gam 2 y gwaith – arolwg rhanddeiliaid a chyfres o grwpiau ffocws.
- Ceir dolen i'r arolwg isod
  https://www.surveymonkey.co.uk/r/TRC9G9G

  Cymraeg: https://www.surveymonkey.co.uk/r/X3RYCP7

- Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r arolwg yw 10 Ebrill. Rydym yn gobeithio denu nifer fawr o ymatebion gan denantiaid, staff, aelodau bwrdd a phartïon eraill â diddordeb. Mae aelodau'r Grŵp Llywio a'r Grŵp Cynghori ar Reoleiddio yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr arolwg yn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl. **Byddwch cystal â gwneud eich gorau i sicrhau bod eich tenantiaid a'ch cydweithwyr yn cael y cyfle i gymryd rhan.**
- Cynhelir y grwpiau ffocws yn ddiweddarach ym mis Ebrill, a hynny mewn tri lleoliad – gogledd, de a gorllewin Cymru. Diolch i Pobl, Cartrefi Conwy a Cartrefi Cymunedol Cymru am ddarparu llety i'r grwpiau ffocws.
- Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r adroddiad ar yr Adolygiad yn nigwyddiad Gwobrau TPAS Cymru ym mis Gorffennaf.

**Mynegwch eich barn**

- Rydym yn awyddus i sicrhau bod ein rhanddeiliaid allweddol yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt am reoleiddio. Felly, os oes gennych unrhyw adborth, sylwadau neu awgrymiadau, byddem yn falch iawn o glywed gennych drwy housingregulation@gov.wales